



Egwyddorion Gwrth-Lwgrwobrwyo Lefel Uchel a Chanllawiau ar gyfer Cynhyrchwyr Annibynnol

Crynodeb o'r Penawdau

A. Cyflwyniad

1. Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo
2. Ffilmio Rhaglenni
3. Canlyniadau
4. Enw Da
5. Gweithredu, Monitro, Adolygu ac Adroddz

B. Deddf Llwrwobrwyo 2010

1. Cefndir
2. Beth yw Llwrwobrwyo?

C. Troseddau

1. 4 Trosedd
2. Personau Cysylltiedig
3. Cyflawniad Amhriodol
4. Rhoddion a Lletygarwch
5. Cosbau

CH. Amddiffyniad Adran 7 o dan y Ddeddf Llwrwobrwyo

1. Gweithdrefnau Digonol

D. Y chwe egwyddor i fodloni'r amddiffyniad Gweithdrefnau Digonol

1. Gweithdrefnau cymesur
2. Ymrwymiad lefel uchel
3. Rheoli Risg
4. Diwydrwydd Dyladwy
5. Cyfathrebu a Hyfforddiant
6. Monitro ac Adolygu

DD. Amddiffyniad gorfodaeth

E. Erlyn o dan y Ddeddf Llwrwobrwyo

1. Cymru a Lloegr
2. Yr Alban a Gogledd Iwerddon

F. Taliadau hwyluso at ddibenion cynhyrchu

1. Ymchwil
2. Gwrthsefyll
3. Pwyntiau eraill

FF. Dolenni Cysylltiedig

A. **Cyflwyniad**

Wedi'u llywio gan Arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Ddeddf Llwrwobrwyo 2010¹, mae'r egwyddorion a'r canllawiau hyn wedi'u rhoi ynghyd gan Pact gyda chymorth gan y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5. Maent yn cynrychioli barn gyfunol ynglŷn ag arfer gorau wrth geisio sicrhau cydymffurfio â'r Ddeddf Llwrwobrwyo wrth weithio ym maes cynhyrchu.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu egwyddorion a threfniadau diogelu argymelledig y dylai pob cwmni cynhyrchu ystyried eu gweithredu er mwyn bod â "gweithdrefnau digonol" sy'n darparu amddiffyniad i erlyniad ar gyfer y drosedd adran 7.

Fodd bynnag, bwriadwyd iddynt lywio ymateb eich cwmni i'r Ddeddf yn unig ac nid cyngor cyfreithiol ar gydymffurfio â'r Ddeddf Llwrwobrwyo mohonynt, ac ni fwriadwyd ychwaith iddynt fod yn gyfarwyddol. Gan gwmnïau cynhyrchu unigol y mae'r cyfrifoldeb o hyd am fynnu eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar y mater hwn a sicrhau bod ganddynt weithdrefnau digonol yn eu lle. Cymesuredd yw'r egwyddor craidd; mater o synnwyr cyffredin yn bennaf ac nid gweithdrefnau beichus yw mynd i'r afael â risgiau llwrwobrwyo.

1. **Polisi Gwrth-Llwrwobrwyo**

Er mwyn defnyddio'r amddiffyniad "gweithdrefnau digonol" i'r drosedd gorfforaethol o "fethu ag atal llwrwobrwyo" (adran 7 isod), dylai fod gan bob cynhyrhydd ei bolisi gwrth-llwrwobrwyo cwmni ei hun. Dylai cwmnïau ymrwymo gartref a thramor i gydymffurfio â'r Ddeddf sy'n cynnwys yr hyn a elwir yn "awdurdodaeth alldiriogaethol"; mae troseddau a gyflawnir dramor yn droseddau o dan y Ddeddf a gellir eu herlyn yn y DU. Dylai eich polisi chi ganolbwyntio ar eich trafodion gyda'ch staff eich hunain yn ogystal â darparwyr gwasanaeth trydydd parti, unigolion allanol a sefydliadau y dewch i gysylltiad â nhw yn ystod eich gwaith, gan y gall eich cwmni fod yn atebol am yr hyn y mae'r trydydd partion hynny'n eu gwneud ar eich rhan. Dylech ymgymryd â phroses diwydrwydd dyledus priodol gan ystyried maint eich cwmni, y math o drydydd partion yr ydych yn delio â nhw a'r mathau o ymgysylltu a wneir gennych, yn ogystal â darparu gweithdrefnau priodol a chngor ymarferol ar gyfer delio â'r pwyntiau allweddol a amlinellir yn y canllawiau hyn.

2. **Ffilmio/Rhaglenni**

Dylai fod gweithdrefnau digonol gennych ar waith ar gyfer cynnwys yr egwyddorion sy'n gyffredinol gymwys i'ch busnes a phan fyddwch yn cynhyrchu. Wrth greu gweithdrefnau priodol ar gyfer cynhyrchiad penodol, gallwch fod eisiau ystyried nifer o ffactorau, er enghraifft, y math o raglen rydych yn ei gwneud, ble rydych chi'n ffilmio, y Mynegai Canfyddiadau Llygredd² ac â phwy rydych yn ymgysylltu neu'n gweithio). Bydd yr ymdrech diwydrwydd dyledus hon yn rhan o'ch gweithdrefnau digonol.

3. **Canlyniadau**

Fel cwmni cynhyrchu mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r effaith y gallai unrhyw achos o dorri'r Ddeddf ei chael arnoch chi. Rhestrir y cosbau yn adran C (5) y canllawiau hyn a gallant gynnwys dirwyon diderfyn a hyd at 10 mlynedd o garchar.

4. **Enw Da**

Yn ogystal, gall cwmnïau cynhyrchu a'u darlledwyr comisiynu wynebu cyhoeddusrwydd anffafriol a niwed i'w henw da pe bai honiad o llwrwobrwyo, gan effeithio ar berthnasoddedd gyda chwmnïau yr ydych yn gwneud busnes â nhw, yn ogystal â chael eich gwahardd rhag tendro am gcontractau cyhoeddus Ewropeaidd.

¹ <http://www.justice.gov.uk/downloads/legislation/bribery-act-2010-guidance.pdf>

² <http://www.transparency.org/research/cpi/overview>

5. **Gweithredu, Monitro, Adolygu ac Adrodd**

Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau pob pawb a gyflogir gennych, boed yn weithwyr llawrydd, yn staff, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr, yn gyfarwydd â'r Ddeddf a pholisi eich cwmni, eu bod yn cytuno i gydymffurfio ag ef pan fyddant yn gweithio i chi a'ch bod yn darparu'r cymorth angenrheidiol iddynt i'w helpu i ddeall pwysigrwydd cydymffurfio â'r Ddeddf.

Dylech hefyd roi trefniadau diogelu ar waith i sicrhau bod eich polisi'n cael ei weithredu, a lle bo'n ymarferol rhoi system briodol ar waith ar gyfer monitro, adolygu ac adrodd ar effeithiolrwydd polisi gwrth-llwgrwobrywo eich cwmni.

O ran y drosedd gorfforaethol newydd o fethu ag atal llwgrwobrwyo, yr unig amddiffyniad sydd ar gael i'ch sefydliad yw bod gennych "weithdrefnau digonol" yn eu lle ac mae eich polisi, a'r broses o weithredu, monitro, adolygu ac adrodd ar y polisi hwnnw yn sylfaenol i hynny. Er enghraifft, os oes gennych bolisi cwmni nad yw'n cael ei fonitro i sicrhau ei fod yn effeithiol, efallai y cewch hi'n anodd defnyddio amddiffyniad gweithdrefnau digonol yn llwyddiannus o dan y Ddeddf. Mae'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder³ yn ddogfen ddefnyddiol iawn ac mae'n pennu mai bwriad "digonol" mewn gweithdrefnau digonol yw dynodi cymesuredd a rhesymoldeb o ystyried maint eich cwmni a natur ei fusnes.

³ <http://www.justice.gov.uk/downloads/legislation/bribery-act-2010-guidance.pdf>

B. Deddf Llwwrwrwyo 2010

1. **Cefndir**

Daeth y Ddeddf Llwwrwrwyo i rym ar 1 Gorffennaf 2011, gan ddisodli a chyfuno'r ddeddfwriaeth llwwrwrwyo gyfredol bryd hynny yn y DU a oedd yn dyddio'n ôl i 1889.

2. **Beth yw Llwwrwrwyo?**

Ystyrir mai math o gymhelliad neu wobwr a gynigir, a addewir neu a ddarperir er mwyn cael mantais fasnachol, contractiol, rheoleiddiol neu bersonol yw llwwrwrwr, lle mae'r elfen o "gyflawniad amhriodol" yn hanfodol mewn perthynas â throseddau adran 1 a 2 (ond nid, yn arwyddocaol, trosedd adran 6 o llwwrwrwyo swyddog cyhoeddus tramor). Gellir ei diffinio hefyd fel ymgais i ddylanwadu ar farn rhywun trwy fodd ariannol neu fodd tebyg. Efallai eich bod yn meddwl tybed pa bryd nad yw llwwrwrwr yn llwwrwrwr. Nid yw cribddeiliaeth neu flacmel yn dod o dan y Ddeddf. Maent yn droseddau y delir â nhw o dan ddeddfwriaeth wahanol.

C. Troseddau

1. **4 Trosedd** -Mae'r Ddeddf yn amlinellu pedair trosedd:

i) **Llwwrwrwyo person arall** (adran 1)

Mae hyn yn golygu cynnig, addo neu roi llwwrwrwr ar yr amod bod y person sy'n cynnig y llwwrwrwr yn bwriadu i'r fantais gymell y derbynnydd i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol neu i wobwrwyo'r person hwnnw am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol.

Deddfwriaeth

Troseddau o llwwrwrwyo person arall

(1) Mae person ("P") yn euog o drosedd os yw'r naill neu'r llall o'r achosion canlynol yn gymwys.

(2) Achos 1 lle—

(a) mae P yn cynnig, yn addo neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais arall i berson arall, a

(b) mae P yn bwriadu i'r fantais—

(i) gymell person i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol, neu

(ii) wobwrwyo person am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd felly yn amhriodol.

(3) Achos 2 lle—

(a) mae P yn cynnig, yn addo neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais arall i berson arall, a

(b) mae P yn gwybod neu'n credu y byddai derbyn y fantais ynddi'i hun yn gyfystyr â chyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol.

(4) Yn achos 1, nid oes gwahaniaeth ai'r person y cynigir, yr addewir neu y rhoddir y fantais iddo yw'r un person â'r person sydd i gyflawni, neu sydd wedi cyflawni, y swyddogaeth neu'r gweithgaredd dan sylw.

(5) Yn achosion 1 a 2, nid oes gwahaniaeth p'un a yw'r fantais yn cael ei chynnig, ei haddo neu'i rhoi gan P yn uniongyrchol neu trwy drydydd parti.

Enghraifft

Mae cwmni cyflogres yn cystadlu am gcontract gyda chi i reoli'r cyllid ar gyfer eich drama newydd. Wrth gyd-drafod cyfraddau, fel cleient newydd, maent yn cynnwys gostyngiad o 20% i chi ar eu ffi arferol, a byddant yn talu £200 i chi, yn bersonol.

Mae'r gostyngiad o 20% yn iawn gan mai disgownt masnachol ydyw (h.y. cyd-drafod y contract) ond ymddengys mai llwgrwobr yw'r cynnig pellach o daliad i chi'n bersonol gan y bwriedir iddo eich annog i gynnig y contract iddynt, pa un ai y nhw yw'r gorau i gyflwyno'r gwasanaethau ai peidio. Fe allai'r cwmni cyflogres fod yn euog o drosedd o dan adran 1 am eu bod yn gwneud y cynnig gyda'r bwriad o'ch annog chi i ymddwyn yn amhriodol wrth ddyfarnu'r contract iddynt. Pe baech yn ei dderbyn, fe allech chi fod yn euog o drosedd o dan adran 2, gweler isod.

ii) **Derbyn Llwgrwobr (adran 2)**

Mae hyn yn golygu gofyn am llwgrwobr, cael llwgrwobr, cytuno i dderbyn llwgrwobr neu dderbyn llwgrwobr, boed yn fantais ariannol neu fantais arall, gan fwriadu, o ganlyniad, y dylai swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol cael ei gyflawni yn amhriodol boed gan y person sy'n derbyn y llwgrwobr neu gan berson arall.

Deddfwriaeth

Troseddau'n ymwneud â chael eich llwgrwobrwy

(1) Mae person ("R") yn euog o drosedd os yw un o'r achosion canlynol yn gymwys.

(2) Achos 3 lle mae R yn gofyn am, cytuno i dderbyn neu'n derbyn mantais ariannol neu fantais arall, gan fwriadu, o ganlyniad, y dylai swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol gael ei gyflawni yn amhriodol (boed gan R neu berson arall).

(3) Achos 4 lle—

(a) mae R yn gofyn am, cytuno i dderbyn neu'n derbyn mantais ariannol neu fantais arall, a

(b) mae'r cais, y cytundeb neu'r derbyniad ei hun yn gyfystyr ag R yn cyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol.

(4) Achos 5 lle mae R yn gofyn am, cytuno i dderbyn neu'n derbyn mantais ariannol neu fantais arall fel gwobr am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol (boed gan R neu berson arall).

(5) Achos 6 lle, gan ddisgwyl neu o ganlyniad i R yn gofyn am, yn cytuno i dderbyn neu'n derbyn mantais ariannol neu fantais arall, caiff swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol ei gyflawni'n amhriodol—

(a) gan R, neu

(b) gan berson arall ar gais R neu gyda chaniatâd neu gydsyniad R.

(6) Yn achosion 3 i 6 nid oes gwahaniaeth—

(a) p'un a yw R yn gofyn am, yn cytuno i dderbyn neu'n derbyn (neu a yw i ofyn am, cytuno i dderbyn neu'n derbyn) y fantais yn uniongyrchol neu trwy drydydd parti,

(b) p'un a yw'r fantais (neu a fydd y fantais) er budd R neu berson arall.

(7) Yn achosion 4 i 6, nid oes gwahaniaeth p'un a yw R yn gwybod neu'n credu bod cyflawni'r swyddogaeth neu'r gweithgaredd yn amhriodol.

(8) Yn achos 6, lle mae person heblaw am R yn cyflawni'r swyddogaeth neu'r gweithgaredd, nid oes gwahaniaeth ychwaith p'un a yw'r person hwnnw'n gwybod neu'n credu bod cyflawni'r swyddogaeth neu'r gweithgaredd yn amhriodol.

Enghraifft

Mae cyswllt busnes yn mynd â chi allan am ginio ac yn cynnig tocynnau i sioe rydych wir am ei gweld. Caiff y cynnig ei wneud ar y sail y byddwch chi wedyn yn castio actor o'r sioe mewn rhaglen yr ydych ar fin dechrau ei ffilmio, gan fod eich cyswllt o'r farn bod y person hwn yn gweddu'n berffaith i'ch briff. Nid ydych chi'n or-hoff o'r actor ond rydych wir eisiau gweld y sioe, ac felly'n derbyn y gwahoddiad. Heb yn wybod i chi, mae eich cyswllt busnes eisiau'r actor yn eich rhaglen chi am fod yr actor wedi addo rhoi cyhoeddusrwydd i un o'i gynhyrchion ar ôl iddo ddod yn enwog yn eich sioe.

Gall eich cyswllt busnes fod yn euog o drosedd o dan adran 1 yn cynnig y tocynnau i chi i'ch cymell i weithredu'n amhriodol wrth gastio actor na fyddech wedi'i ystyried yn flaenorol, gan y bydd y cyswllt busnes yn elwa o'r castio yn y pen draw. Gallwch chi fod yn euog o drosedd o dan adran 2 os derbyniwch y tocynnau gyda'r bwriad o gastio'r actor o ganlyniad i'r gwahoddiad. Er nad yw'n ymddangos i chi mai mantais iddynt ei hunain ydyw, fe'i bwriadwyd i ddylanwadu arnoch chi – p'un a ydych yn gwybod mai er budd personol yw hynny neu beidio.

iii) **Llwgwrbrwyo Swyddog Cyhoeddus Tramor (adran 6)**

Dyma lle mae person yn cynnig, yn addo neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais arall i swyddog cyhoeddus tramor gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y swyddog wrth gyflawni ei swyddogaethau swyddogol, lle mae swyddogaethau swyddogol yn swyddogaethau a bennir mewn cyfraith neu reoliad arall yn y wlad weithredu – nid yw defod ac arfer yn ddigon i gymhwyso fel swyddogaeth swyddogol. Nid oes rhaid profi cyflawniad amhriodol neu fwriad o dan y drosedd hon.

Yn hanfodol, nid yw'r elfen o amhriodoldeb yn ofynnol. Gellid ystyried bod talu swyddog cyhoeddus i gyflawni ei swyddogaethau swyddogol yn llwgwrbr⁴.

⁴ Ni chynhwyswyd unrhyw ofyniad ar gyfer cyflawniad amhriodol yn y drosedd hon am y tybiwyd y byddai'n rhy anodd ei brofi.

Deddfwriaeth

Llwrgrwbrwyo swyddogion cyhoeddus tramor

(1) Mae person (“P”) sy’n llwrgrwbrwyo swyddog cyhoeddus tramor (“F”) yn euog o drosedd os bwriad P yw dylanwadu ar F yn rhinwedd swydd F fel swyddog cyhoeddus tramor.

(2) Rhaid i P hefyd fwriadu cael neu gadw—

(a) busnes, neu

(b) mantais wrth gynnal busnes.

(3) Mae P yn llwrgrwbrwyo F os, a dim ond os—

(a) yn uniongyrchol neu trwy drydydd parti, mae P yn cynnig, yn addo neu’n rhoi unrhyw fantais ariannol neu fantais arall—

(i) i F, neu

(ii) i berson arall ar gais F neu gyda chaniatâd neu gydsyniad F, a

(b) ni chaniateir i F ac nid yw’n ofynnol gan y gyfraith ysgrifenedig sy’n gymwys i F gael ei ddylanwadu yn rhinwedd swydd F fel swyddog cyhoeddus tramor gan y cynnig, yr addewid neu’r rhodd.

(4) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at ddylanwadu ar F yn rhinwedd swydd F fel swyddog cyhoeddus tramor yn golygu dylanwadu ar F wrth i F gyflawni ei swyddogaethau fel swyddog, sy’n cynnwys—

(a) unrhyw anwaith rhag cyflawni’r swyddogaethau hynny, ac

(b) unrhyw ddefnydd o swydd F fel swyddog o’r fath, hyd yn oed os nad yw o fewn awdurdod F.

(5) Mae “Swyddog cyhoeddus tramor” yn golygu unigolyn sydd—

(a) yn dal swydd ddeddfwriaethol, weinyddol neu farnwrol o unrhyw fath, boed wedi’i benodi neu’i ethol, mewn gwlad neu diriogaeth y tu allan i’r Deyrnas Unedig (neu unrhyw isadran gwlad neu diriogaeth o’r fath),

(b) yn arfer swyddogaeth gyhoeddus—

(i) ar gyfer neu ar ran gwlad neu diriogaeth y tu allan i’r Deyrnas Unedig (neu unrhyw isadran gwlad neu diriogaeth o’r fath), neu

(ii) ar gyfer unrhyw asiantaeth gyhoeddus neu fenter gyhoeddus y wlad neu’r diriogaeth honno (neu isadran), neu

(c) yn swyddog neu asiant sefydliad rhyngwladol cyhoeddus.

(6) Mae “Sefydliad rhyngwladol cyhoeddus” yn golygu sefydliad y mae ei aelodau yn unrhyw un o’r canlynol—

(a) gwledydd neu diriogaethau,

(b) llywodraethau gwledydd neu diriogaethau,

(c) sefydliadau rhyngwladol cyhoeddus eraill,

(ch) cymysgedd o unrhyw rai o’r uchod.

Deddfwriaeth, parhad

(7)At ddibenion isadran (3)(b), y gyfraith ysgrifenedig sy'n gymwys i F yw-

(a)lle byddai cyflawniad swyddogaethau F y mae P yn bwriadu dylanwadu arnynt dan reolaeth cyfraith unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, cyfraith y rhan honno o'r Deyrnas Unedig,

(b)lle nad yw paragraff (a) yn gymwys ac mae F yn swyddog neu'n asiant sefydliad rhyngwladol cyhoeddus, rheolau ysgrifenedig cymwys y sefydliad hwnnw,

(c)lle nad yw paragraffau (a) a (b) yn gymwys, cyfraith y wlad neu'r diriogaeth y mae F yn swyddog cyhoeddus tramor mewn perthynas â hi i'r graddau y cynhwysir y gyfraith honno yn—

(i) unrhyw gyfansoddiad ysgrifenedig, neu ddarpariaeth a wneir gan neu o dan ddeddfwriaeth, sy'n gymwys i'r wlad neu'r diriogaeth dan sylw, neu

(ii) unrhyw benderfyniad barnwrol sy'n gymwys ac y ceir tystiolaeth ohono mewn ffynonellau ysgrifenedig cyhoeddus.

(8)At ddibenion yr adran hon, mae masnach neu broffesiwn yn fusnes.

Enghraifft

Rydych eisiau mynediad i leoliad ac mae swyddog y llywodraeth wedi cynnig cyflymu'r broses pan fyddwch chi'n gwneud cais am hawlen i ffilmio os gallwch chi roi £100 ychwanegol iddo - nid oes gwasanaeth brys swyddogol ar gael ond bydd yn cadw llygad am eich cais ac yn ei roi ar frig y pentwr.

Pe baech yn cytuno i'w gynnig ac yn gwneud y taliad ychwanegol o £100, mae'n debygol yr ystyrir hyn yn llwgrwobr o dan adran 6 y Ddeddf Llwgrwobrwyo.

iv) **Methiant sefydliad masnachol i atal llwgrwobrwyo (adran 7)**

Gall sefydliad masnachol fod yn euog o fethu ag atal llwgrwobrwyo lle bo person sy'n cyflawni gwasanaethau ar gyfer neu ar ran y sefydliad hwnnw yn llwgrwobrwyo (naill ai o dan adran 1 neu adran 6) unigolyn arall neu sefydliad, gan fwriadu cael neu gadw busnes neu fantais wrth gynnal busnes, ac nid yw'r sefydliad yn gallu gwneud yr amddiffyniad "gweithdrefnau digonol" drwy fod â threfniadau diogelu priodol ar waith i atal personau cysylltiedig rhag cymryd rhan mewn gweithredoedd o llwgrwobrwyo. Mae hon yn drosedd atebolrwydd caeth.

I ysgogi adran 7, nid oes angen erlyniad llwyddiannus o dan adran 1 neu adran 6 ond mae angen bod tystiolaeth ddigonol i brofi bod trosedd wedi'i chyflawni.

Mae "sefydliad masnachol" at ddibenion adran 7 yn cynnwys yr holl endidau masnachol cyfreithiol a gydnabyddir, h.y. cwmnïau, partneriaethau a chorfforaethau sy'n cynnal rhywfaint o'u busnes yn y DU. Gall sefydliadau a phartneriaethau'r DU sy'n cynnal busnes yn unrhyw le yn y byd fod yn atebol hefyd.

Deddfwriaeth

Methiant sefydliadau masnachol i atal llwgrwobrwyo

(1) Mae sefydliad masnachol perthnasol (“C”) yn euog o drosedd o dan yr adran hon os yw person (“A”) sy’n gysylltiedig â C yn llwgrwobrwyo person arall gan fwriadu-

- (a) cael neu gadw busnes ar gyfer C, neu
- (b) cael neu gadw mantais wrth gynnal busnes ar gyfer C.

(2) Ond mae’n amddiffyniad i C i brofi bod gan C weithdrefnau digonol ar waith ar gyfer atal personau sy’n gysylltiedig â C rhag ymgymryd â’r cyfryw ymddygiad.

(3) At ddibenion yr adran hon, mae A yn llwgrwobrwyo person arall os, a dim ond os, yw A—

- (a) yn, neu y byddai, yn euog o drosedd o dan adran 1 neu 6 (pa un a yw A wedi’i erlyn am drosedd o’r fath neu beidio), neu
- (b) yn euog o drosedd o’r fath pe bai adran 12(2)(c) a (4) wedi’u hepgor.

(4) Gweler adran 8 i gael ystyr person sy’n gysylltiedig â C a gweler adran 9 am ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi arweiniad.

(5) Yn yr adran hon—

mae “partneriaeth” yn golygu—

- (a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaeth 1890, neu
- (b) partneriaeth gyfyngedig wedi’i chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907, neu ffyrn neu endid o gymeriad tebyg a ffurfiwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i’r Deyrnas Unedig,

mae “sefydliad masnachol perthnasol” yn golygu—

- (a) corff sy’n gorfforedig o dan gyfraith unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig ac sy’n cynnal busnes (boed yno neu yn rhywle arall),
- (b) unrhyw gorff corfforaethol arall (ym mha le bynnag y’i corfforwyd) sy’n cynnal busnes, neu ran o fusnes, yn unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig,
- (c) partneriaeth a ffurfir o dan gyfraith unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig ac sy’n cynnal busnes (boed yno neu yn rhywle arall), neu
- (d) unrhyw bartneriaeth arall (ym mha le bynnag y’i ffurfiwyd) sy’n cynnal busnes, neu ran o fusnes, yn unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig,

ac, at ddibenion yr adran hon, mae masnach neu broffesiwn yn fusnes.

Enghraifft

Mae cwmni ôl-gynhyrchu yn cynnig am gontract gwasanaeth gyda chi ac mae ei gyfarwyddwr cynigion yn awgrymu i’ch cyfreithiwr mewnlol pe bai’n gwro gofynion y contract o’i blaid, y byddai’n rhannu canran o’i ffi gyda hi.

Pe bai eich cyfreithiwr mewnlol yn derbyn y llwgrwobr ac yn newid gofynion y contract yn unol â hynny, byddai fwy na thebyg yn euog o dderbyn llwgrwobr o dan adran 2. Fodd bynnag, nid oes unrhyw atebolrwydd corfforaethol ar gyfer “personau cysylltiedig” yn derbyn llwgrwobrwyon. Dim ond lle bydd y personau hynny yn cynnig llwgrwobr ar ran eich sefydliad y mae atebolrwydd corfforaethol yn codi o dan adran 7.

Byddai’r cwmni ôl-gynhyrchu wedi torri amodau’r Ddeddf yn y senario hwn am mai ei gyflogai a wnaeth y cynnig o llwgrwobr ar ran y cwmni. Yr unig amddiffyniad fyddai ar gael i’r cwmni ôl-gynhyrchu fyddai dangos tystiolaeth bod “gweithdrefnau digonol” i atal llwgrwobrwyo ar waith pan gyflawnwyd y drosedd, fel polisi gwrth-llwgrwobrwyo clir a hyfforddiant ar gyfer yr holl gyflogaion priodol.

2. Diffinnir “**Personau Cysylltiedig**” o dan adran 8 y Ddeddf Llgrwobrwyo. Gall sefydliad masnachol fod yn atebol am llgrwobrwyon a wneir gan berson cysylltiedig. Gall personau cysylltiedig fod yn drefnyddion, darparwyr gwasanaeth llawrydd, asiantau, cyflogeion, yr holl gyflenwyr ac unrhyw un (boed yn unigolyn neu’n endid) sy’n cyflawni gwasanaethau ar ran y sefydliad masnachol dan sylw.

Enghraifft

Heb yn wybod i chi, mae trefnydd yr ydych wedi bod yn ei ddefnyddio ers blynnyddoedd yn talu swyddogion y tollau “yn answyddogol” i gyflymu prosesu eich offer drwy’r tollau.

Mae’r trefnydd hwnnw’n darparu gwasanaeth i chi ac mae’n “berson cysylltiedig” o dan y Ddeddf ac, o ganlyniad, chi sy’n gyfrifol am ei weithgareddau/gweithgareddau. Gall eich sefydliad fod yn euog o drosedd o dan adran 7 oni bai y gallwch brofi fod gennych weithdrefnau digonol ar waith i atal eich staff a chontractwyr rhag ymwneud â’r math hwn o ymddygiad. Argymhellir bod pob un o’ch contractau gyda “personau cysylltiedig” wedi’u sefydlu yn ysgrifenedig ac yn datgan yn glir bod gennych bolisi gwrth-llgrwobrwyo, y mae disgwyl i’r contractiwr fod yn gyfarwydd ag ef a’i ddilyn pan fydd yn gweithio i chi.

3. **Cyflawniad Amhriodol**

Mae’n bwysig nodi bod troseddau adran 1 ac adran 2 yn mynnu “cyflawniad amhriodol” a hefyd, yn anuniongyrchol, adran 7 lle mae sefydliad masnachol wedi methu ag atal llgrwobrwyo rhag cael ei gyflawni.

Diffinnir cyflawniad amhriodol yn adrannau 3, 4 a 5 y Ddeddf ac mae’n golygu torri disgwyliad o ddiwylledd, didueddrwydd neu ymddiriedaeth. Y prawf yw beth fyddai person rhesymol yn y Deyrnas Unedig yn ei ddisgwyl mewn perthynas â chyflawni’r math o swyddogaeth neu weithgaredd dan sylw.

4. **Rhoddion a Lletygarwch**

Mae arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod lletygarwch ‘bona fide’ fel rhan bwysig a sefydledig o wneud busnes ac mae’n datgan yn glir na fyddai lletygarwch rhesymol, fel mynd â chleientiaid allan am ginio neu ddarparu tocynnau i ddigwyddiadau chwaraeon, yn gyfystyr â throedd o dan y ddeddfwriaeth.

Dylai pob rhodd a lletygarwch:

- Fod yn dryloyw, yn gymesur a phriodol, eu cynnig yn ddiwyll a bod yn rhan sefydledig a phwysig o wneud busnes.

Mae’n bwysig bod yn ymwybodol y gall lletygarwch a gwariant hyrwyddol fod yn sail trosedd o:

- llgrwobrwyo person arall (adran 1 – rhaid bod elfen o gyflawniad amhriodol); neu
- llgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor (adran 6 – bwriadwyd i ddylanwadu i fusnes neu fantais)
- (o dan adran 7) ar gyfer sefydliad masnachol sy’n methu ag atal llgrwobrwyo.

Wrth ystyried p’un a yw rhodd/adloniant yn briodol h.y. yn rhesymol ac yn gymesur, argymhellir bod gennych bolisi treuliau cwmni eglur yn ei le sy’n pennu terfynau ariannol mewn perthynas â rhoi a derbyn rhoddion ac adloniant. Efallai y byddwch am ystyried cadw cofrestr o roddion a lletygarwch ar gyfer gwariant dros derfynau penodol lle bo angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan uwch reolwr mewn amgylchiadau priodol.

Enghraifft

Mae cyflenwr yn anfon cas o win i chi ar gyfer y Nadolig ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn. Ai llwgrwobr yw hynny?

Mae'n annhebygol y byddai hyn yn cael ei ystyried yn llwgrwobr. Mae Arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder (astudiaeth achos 4) yn esbonio y dylai lletygarwch adlewyrchu dymuniad i gryfhau perthnasoedd da a dangos gwerthfawrogiad, ac na fyddai gwariant hyrwyddol sy'n gwella delwedd sefydliad masnachol, er mwyn cyflwyno'i gynhyrchion neu ei wasanaethau yn well, neu sefydlu perthnasoedd cryf, yn cael ei ddal gan y Ddeddf. Dylid ei dderbyn heb roi'r argraff fod y derbynydd o dan unrhyw rwymedigaeth i roi unrhyw fantais busnes neu yr effeithir ar annibyniaeth y derbynydd. Mae'r achos hwn yn dangos arfer sefydledig, fel arwydd o ewyllys da gyda'r bwriad o ddangos gwerthfawrogiad neu gryfhau perthnasoedd da. Gan ddbynnu ar flwyddyn y gwin, gallai ymddangos yn anrheg Nadolig rhesymol!

Mae criw o fewn adran benodol yn casglu arian er mwyn prynu rhodd moethus o ddiolch, sydd gwerth cannoedd o bunnoedd, i Bennaeth yr Adran ar ddiwedd y cynhyrchiad. Ai llwgrwobr yw hwn?

Mae hynny'n dibynnu ar y rheswm am y rhodd. Os yw'n ddiolch dilys o dan amgylchiadau'r saethu – dyweder bod y Pennaeth Adran yn bersonol wedi achub aelodau o'r criw rhag boddi - wedyn, yn wrthrychol, gall ymddangos yn hollol dderbyniol, yn amodol ar y polisiâu corfforaethol sy'n rheoli anrhegion o fewn y Cwmni y mae'r criw a'r Pennaeth yn gweithio iddo. Er bod hwn yn syniad caredig, rhaid i'r criw a'r Pennaeth fod yn ofalus i beidio â thorri ar bolisi'r cwmni ar roddion a lletygarwch. Ond, os mai pwrpas y rhodd yw i sicrhau ail-gyflogaeth neu waith pellach, yna bydd hyn bron yn bendant yn cael ei amgyffred yn llwgrwobr, ac iddo ganlyniadau sylweddol. Bydd polisi'r cwmni cynhyrchu yn nodi cyfyngiad ar y cyfanswm y gall unigolyn gyfrannu i rodd o'r fath, er enghraifft gellir ystyried £25 i fod yn swm rhesymol, ac ni ellir mynd heibio i'r swm hwnnw. Mae hi hefyd yn bwysig i sicrhau nad oes aelod o'r criw yn teimlo o dan oblygiad i gyfrannu at rodd. Yn y sefyllfa hon, mae hi'n drosedd o dan adran 1 o'r Ddeddf i gyfrannu mwy na'r cyfyngiad a gynghorir o fewn polisi'r cwmni i ennill ffafr y Pennaeth er mwyn iddyn nhw eich cyflogi yn y dyfodol. Yn ail, mae derbyn rhodd ar y sail hon hefyd yn drosedd o dan adran 2 o'r Ddeddf. Mae methiant y cwmni i atal llwgrwobrwyo o'r natur hwn yn drosedd o dan adran 7 o'r Ddeddf. Gweler isod am fanylion yn ymwneud â chosbau.

5. Cosbau

Mae'r tabl isod yn rhestru'r math o gosbau y gellir eu priodoli i droseddau o dan y Ddeddf:

Cosbau i'r Unigolyn <u>Yn ogystal ag unigolion sy'n gysylltiedig â chwmni sy'n torri amodau'r Ddeddf</u>	Cosbau i'r Cwmni Cwmnïau/sefydliadau masnachol sy'n methu ag atal llwgrwobrwyo
Dirwy Ddiderfyn Atafaelu Asedau o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 Anghymhwysio fel Cyfarwyddwr Uchafswm o ddeng mlynedd o garchar	Dirwy Ddiderfyn Potensial i gael eich gwahardd yn barhaol rhag tendro am gontractau'r sector cyhoeddus o fewn yr UE o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 Gall cwmnïau gael eu dirwyo hefyd gan reoleiddwyr sectoraidd.

CH. Amddiffyniad Adran 7 o dan y Ddeddf Llwgwrbrwyo

1. Gweithdrefnau Digonol

Amlinellir amddiffyniad yn y Ddeddf Llwgwrbrwyo yn adran 7(2) mewn perthynas â'r drosedd gorfforaethol o fethu ag atal llwgwrbrwyo. Mae amddiffyniad gan gwmni cynhyrchu os gall ddangos, er gwaethaf achos penodol o llwgwrbrwyo, bod ganddo "gweithdrefnau digonol" ar waith ar gyfer atal personau sy'n gysylltiedig ag ef rhag cyflawni troseddau o dan y Ddeddf.

Mae Arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arbennig o ddefnyddiol yn y maes hwn. Mae'n ystyried y dylai gweithdrefnau y dylai sefydliadau masnachol eu rhoi ar waith gael eu llywio gan chwe egwyddor (a amlinellir yn fanylach isod). Sefydlir yr egwyddorion hyn i gynorthwyo busnesau i fodloni'r prawf "gweithdrefnau digonol", ac mae'r brif egwyddor cymesuredd yn dynodi y dylai pob gweithdrefn a roddir ar waith mewn ymateb i'r Ddeddf ystyried maint a natur y sefydliadau masnachol a graddfa ei weithgareddau, yn ogystal â'r risgiau a ragwelir.

Nid yw achos unigol o llwgwrbrwyo yn golygu o angenrheidrwydd fod gweithdrefnau sefydliad yn annigonol. Er enghraifft, gall gweithredoedd asiant neu gyflogai fod yn fwriadol groes i ofynion, cyfarwyddiadau neu arweiniad contractiol corfforaethol cadarn iawn. Fodd bynnag, os byddwch yn methu sicrhau bod eich gweithdrefnau digonol yn cael eu gweithredu, eu monitro neu'u hadolygu i wneud yn siŵr eu bod yn effeithiol, yna bydd pa un a yw'r gweithdrefnau yn ddigonol ar gyfer amddiffyniad yn fater i'r llysoedd benderfynu arnynt yn y pen draw ar sail achos wrth achos.

D. Y chwe egwyddor i fodloni'r amddiffyniad Gweithdrefnau Digonol

1. Gweithdrefnau cymesur

Dylai gweithdrefnau cwmni i atal llwgwrbrwyo fod yn gymesur â'r risgiau llwgwrbrwyo y mae'n eu hwynebu ac ystyried natur, graddfa a chymhlethdod gweithgareddau'r sefydliad.

Ni ddylai cwmnïau cynhyrchu bach ofni y bydd angen byddin o gyfreithwyr arnynt yn sydyn er mwyn rheoli risgiau llwgwrbrwyo. Fe allent geisio gwneud staff yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ac Arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan fynnu eu bod yn ymgyfarwyddo â pholisïau cyhoeddedig eu darlledwyr comisiynu nawr a bob tro y cânt eu comisiynu gan y darlledwyr hynny, gyda pholisï drws agored at uwch reolwyr os bydd angen codi neu drafod unrhyw bryderon (gweler isod).

2. Ymrwymiad lefel uchaf

Dylai rheolwyr y cwmni ar y lefel uchaf fod yn ymrwymedig i atal llwgwrbrwyo gan bersonau sy'n gysylltiedig ag ef drwy feithrin diwylliant o fewn y cwmni nad yw llwgwrbrwyo fyth yn dderbyniol. Mae'r ymrwymiad hwn i atal llwgwrbrwyo yn debygol o gynnwys:

- i) cyfleu safbwynt gwrth-llwgwrbrwyo'r sefydliad; a
- ii) graddfa briodol o ymglymiad wrth ddatblygu gweithdrefnau atal llwgwrbrwyo.

Mewn cwmnïau llai, gall ymateb cymesur fynnu bod rheolwyr lefel uchaf yn ymwneud yn bersonol â chychwyn, datblygu a gweithredu gweithdrefnau atal llwgwrbrwyo.

Mewn cwmnïau rhyngwladol, dylai'r bwrdd fod yn gyfrifol am bennu polisïau atal llwgwrbrwyo, gweithredu a monitro gweithdrefnau atal llwgwrbrwyo, ac adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd.

3. Rheoli risg

Dylai'r cwmni asesu natur a graddfa ei berygl i risgiau llwgwrbrwyo allanol a mewnol posibl ar ei ran gan bersonau cysylltiedig. Dylai'r asesiad geisio bod yn gyfnodol, yn wybodus a dylid ei ddogfennu.

Diben yr egwyddor hon yw hyrwyddo mabwysiadu **gweithdrefnau asesu risg** sy'n gymesur â maint a natur y sefydliad a lleoliad ei weithgareddau. Po lawnaf yw'r ddealltwriaeth o'r risgiau llwgrwobrwyo a wynebir, y mwyaf effeithiol y mae ei ymdrechion i atal llwgrwobrwyo yn debygol o fod.

4. **Diwydrwydd Dyledus**

Dylai'r cwmni ystyried gweithdrefn briodol diwydrwydd dyledus, gan fabwysiadu dull cymesur a seiliedig ar risg, mewn perthynas â phersonau sy'n cyflawni neu a fydd yn cyflawni ar gyfer neu ar ran y cwmni cynhyrchu, er mwyn lliniaru risgiau llwgrwobrwyo a nodwyd. Er enghraifft, mae diwydrwydd dyledus yn cynnwys gwirio CVau, geirdaon ar gyfer unrhyw swydd cyfarwyddwr, ymchwil gyffredinol, a gweld polisïau gwrth-llwgrwobrwyo.

5. **Cyfathrebu, yn cynnwys hyfforddiant**

Dylai'r cwmni geisio sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau atal llwgrwobrwyo wedi'i hymgorffori ac y cânt eu deall ar draws y sefydliad trwy gyfathrebu mewnol ac allanol lle bo'n briodol; yn cynnwys hyfforddiant sy'n gymesur â'r risgiau y mae'n eu hwynebu.

6. **Monitro ac adolygu**

Gall y risgiau llwgrwobrwyo y bydd cwmni'n eu hwynebu newid dros gyfnod, ac maent yn ddibynol ar natur y rhaglen/ni y mae'n eu gwneud, lleoliad ffilmio ac ati, yn ogystal â natur a graddfa gweithgareddau masnachol y cwmni, felly mae'n debygol y bydd y gweithdrefnau sydd eu hangen i liniaru'r risgiau hynny yn newid. Dylai cwmnïau fonitro ac adolygu'n rheolaidd y gweithdrefnau sydd yn eu lle, a'u heffeithiolrwydd o ystyried gweithgareddau cyfredol y sefydliad, gan sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud lle bo angen.

DD. Amddiffyniad Gorfodaeth

Mae gorfodaeth yn amddiffyniad posibl i droseddau llwgrwobrwyo er na nodir hynny'n benodol yn y Ddeddf. Mae'n amddiffyniad o dan y gyfraith gyffredin a allai, y mae Arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei gadarnhau, fod yn gymwys i droseddau'r Ddeddf Llwrwobrwyo a gyflawnir dan orfodaeth. Fodd bynnag, yn y cyfryw amgylchiadau, rhaid i'r orfodaeth fod ar ffurf perygl sydd ar fin digwydd; ofn colli "bywyd, aelod neu ryddid".

Dylai diogelwch eich cyflogeion, asiantau neu weithwyr llawrydd fod o'r pwys pennaf a dylai fod yn sail unrhyw bolisi cwmni wrth ddelio â bygythiad, neu ofn, trais neu golli rhyddid.

Bydd penderfyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar ba un i erlyn yn ystyried unrhyw sefyllfaoedd gorfodi posibl wrth asesu a yw er budd y cyhoedd i erlyn.

Beth bynnag, gall y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'r Swyddfa Twyll Difrifol ystyried, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, lle mae sefyllfaoedd o orfodaeth wirioneddol yn bodoli, ei bod yn annhebygol o fod er budd y cyhoedd i erlyn.

Os yw cynhyrchiad wedi'i leoli mewn ardal risg uchel, mae'n hanfodol i bob cyflogai, asiant neu weithiwr llawrydd gael hyfforddiant priodol amgylchedd gelyniaethus.

Enghraifft

Mae rhedwr wedi'i ddal mewn maes awyr mewn gwlad yn Affrica yn ystod rhyfel cartref. Mae swyddogion wedi cloi ei holl offer i fyny, ac yn gwrthod rhyddhau unrhyw beth heb gael taliad o \$250 am ffioedd gweinyddol "answyddogol". Mae'r swyddogion yn arfog, ac yn gwneud i'r rhedwr deimlō'n anniogel ac yn bryderus. Dim ond un awyren sy'n mynd allan o'r ardal bob tri diwrnod, felly mae'n penderfynu talu'r swyddogion i gael ei rhyddhau o'r sefyllfa mor gyflym â phosibl.

Byddai'r math hwn o daliad hwyluso yn dod o dan gwmpas y Ddeddf ac mae'n drosedd i llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor. Fodd bynnag, gan fod y rhedwr yn poeni am ei diogelwch, efallai y gallai hi a'i chwmi cynhyrchu amddiffyn unrhyw erlyniad o dan y Ddeddf yn llwyddiannus trwy reswm gorfodaeth.

E. Erlyn o Dan y Ddeddf Llwrwobrwyo

1. **Cymru a Lloegr**

Bydd dod ag erlyniad o dan y Ddeddf Llwrwobrwyo yng Nghymru a Lloegr yn mynnu cydsyniad personol, ac yn ôl disgresiwn, y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) a Chyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO).

Bydd yn gwneud ei benderfyniad yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron - 'Y Cod'⁵. Wrth benderfynu pa un ai i fwrw ymlaen ag erlyniad o dan y Ddeddf, bydd yr erlynwyr perthnasol yn mabwysiadu proses adolygu dau gam: yn gyntaf, pa un a oes tystiolaeth ddigonol i erlyn am drosedd o dan y Ddeddf ac, yn ail, pa un a yw erlyniad er budd y cyhoedd.

Er mwyn deall y cwestiynau'n ymwneud â'r prawf digonolrwydd tystiolaeth a budd y cyhoedd, dylai cwmnïau cynhyrchu ddarllen 'Y Cod' ar y cyd ag Arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i Erlynwyr ar Asesu Budd y Cyhoedd mewn Achosion sy'n Effeithio ar y Cyfryngau⁶, sy'n amlinellu'r ymagwedd at gymhwyso amddiffyniad budd y cyhoedd yn arbennig mewn achosion sy'n effeithio ar y cyfryngau ac yn amlygu pwysigrwydd ystyried budd y cyhoedd gan ryddid mynegiant a'r hawl i gael a rhoi gwybodaeth.

2. **Yr Alban a Gogledd Iwerddon**

⁵ https://www.cps.gov.uk/publications/code_for_crown_prosecutors/

⁶

http://www.cps.gov.uk/legal/d_to_g/guidance_for_prosecutors_on_assessing_the_public_interest_in_cases_affecting_the_media/

Yn yr **Alban**, mae'n ofynnol i'r Heddlu adrodd am bob Gweithred Llwgwrwbrwyo i Isadran Troseddau Difrifol a Threfnedig Swyddfa'r Goron (SOCD). Bydd yr holl benderfyniadau ynglŷn ag achosion troseddol yn y cyfryw achosion yn cael eu gwneud gan Gwnsler y Goron, sy'n cynrychioli'r Arglwydd Adfocad ac yn rhoi cyfarwyddiadau yn yr achosion mwyaf difrifol.

Yng **Ngogledd Iwerddon** – dylech gyfeirio at y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'i God Erlyn.

F. Taliadau Hwyluso at ddibenion Cynhyrchu

Er mai ymagwedd "dim goddefgarwch" yn ei hanfod yw polisi'r Llywodraeth tuag at lwgrwbrwyo, derbynnir gan y Weinyddiaeth bod cynnydd yn debygol o fod yn raddol o ran dileu gwneud taliadau hwyluso i swyddogion cyhoeddus tramor mewn rhai gwledydd. Yr uchelgais yw symud tuag ddileu'r math hwn o lwgrwbrwyo yn y pen draw. Felly, er nad oes unrhyw eithriad mewn perthynas â gwneud "taliadau hwyluso" o dan y Ddeddf Llwgwrwbrwyo - maent yn bendant yn dod o dan ddarpariaethau adrannau 1 a/neu 6 - rhagwelir y gall dull gwrthsefyll fesul cam fod yn ddigonol i osgoi erlyn a hefyd i ddangos tystiolaeth o weithdrefnau digonol.

Mae'r canllawiau hyn yn awgrymu y gallai dull gwrthsefyll fesul cam a gweithdrefnau digonol gynnwys ymchwil helaeth ymlaen llaw a rhai camau i ddangos gwrthsefyll, yn y cam hwn o weithredu'r Ddeddf:

Ymchwil

- Mae'n hanfodol cynllunio ymhell ymlaen llaw er mwyn paratoi eich hun yn llawn ar gyfer unrhyw faterion posibl.
- Wrth deithio, ystyriwch wirio gwefannau Rhyngwladol a gwefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ogystal â swyddi diplomatig y DU neu Masnach a Buddsoddi y DU i gael arweiniad penodol ar yr ardal yr ydych yn teithio iddi.
- Gwiriwch y Dangosydd Canfyddiadau o Lygredd [Corruption Perception Indicator] sy'n sgorio gwledydd ar ba mor llwgr yr ystyrir eu sectorau cyhoeddus, ac mae'n eich galluogi yn ogystal i ystyried materion posibl a allai godi tra'n ffilmio yn y wlad honno.
- Os ystyrir bod ardal yn un risg uchel (o ran diogelwch a/neu lwgrwbrwyo), gofynnwch am gyngor pellach gan arbenigwyr.

- Wrth benderfynu cyflogi trefnydd, sicrhewch ei fod/bod yn brofiadol, gyda gwybodaeth am y cyfreithiau a'r gweithdrefnau lleol yn ogystal â dealltwriaeth glir o ymagwedd eich cwmni at lwgrwobrwyo. Gallwch hefyd fod eisiau ystyried darparu cymal priodol gwrth-lwgrwobrwyo yng nghontract y trefnydd.
- Dylai trefnyddion feddu hefyd ar wybodaeth helaeth am ddefodau ac arferion lleol yn ogystal â'r ffioedd arferol a godir am wasanaethau swyddogol, fel toll daliadau neu ffioedd fisa fel bo'n briodol.
- Cyn i chi deithio, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa hawlenni a thrwyddedau y mae'n ofynnol eu cael, pa fisâu sydd eu hangen, a sicrhewch fod eich holl waith papur mewn trefn cyn i chi adael, lle bo modd. Ceisiwch gael cadarnhad ysgrifenedig gan y llysgenhadaeth neu'r swyddfa is-gennad priodol yn cadarnhau bod popeth sydd ei angen arnoch gennych er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau lleol.

Gwrthsefyll

- Lle gofynnir am lwgrwobrwyon, ystyriwch bob amser pa un a yw'n briodol gwrthsefyll talu'r llwgrwobr yn y lle cyntaf.
- Mae diogelwch o'r pwys pennaf, a dylid ond ystyried gwrthsefyll mewn sefyllfaoedd lle mae'n teimlo'n gwbl ddiogel.
- Dylai ymchwil llawn a phrofiad blaenorol eich tîm ar lawr gwlad lywio barnu da ym mhob senario. Mae'n annhebygol o fod yn synhwyrol neu'n angenrheidiol i wrthod taliad pan fydd unrhyw un yn teimlo dan fygythiad trais, carchariad neu'n ofni am eu diogelwch hwythau (colli "bywyd, aelod neu ryddid") neu ddiogelwch rhai eraill. Pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, cwestiynwch gyfreithlondeb unrhyw gais a wneir gan swyddogion, dywedwch ei fod yn groes i'ch polisi gwrth-lwgrwobrwyo a bod ymchwil wedi dangos ei fod yn groes i'r gyfraith leol.
- Dylai cwmnïau ystyried sut i fonitro, ac os yw'n briodol cofnodi, y mathau yma o daliadau cynhyrchu na ellir eu hosgoi.

Pwyntiau Eraill i'w Hystyried

- A yw'r cais am daliad yn llwgrwobr mewn gwirionedd neu a ellid ystyried ei fod yn rhan o gyd-drafod contract ar gyfer gwasanaethau neu newid mewn telerau talu sydd eisoes yn bod?
- A yw'r amgylchiadau yn gyfystyr â gorfodaeth – ofn colli bywyd, aelod neu ryddid – neu efallai yn gribddeiliaeth neu'n flacmel na fyddent yn gyfystyr â throsedd o dan y Ddeddf.

FF. Dolenni cysylltiedig

Y Ddeddf Llwgrwobrwyo:

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/23/contents>

Mae arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w gael yn:

<http://www.justice.gov.uk/guidance/docs/bribery-act-2010-guidance.pdf>,

Mae Arweiniad Eryln ar y Cyd Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol a'r Cyfarwyddwr Erylniadau Cyhoeddus i'w gael yn:

http://www.sfo.gov.uk/media/167348/bribery_act_2010_joint_prosecution_guidance_of_the_director_of_the_serious_fraud_office_and_the_director_of_public_prosecutions.pdf

Cod Erylnwyr y Goron:

http://www.cps.gov.uk/publications/code_for_crown_prosecutors/

Arweiniad y Swyddfa Twyll Difrifol ar Erylniadau Corfforaethol:

<http://www.sfo.gov.uk/about-us/our-policies-and-publications/guidance-on-corporate-prosecutions.aspx>

Arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar Asesu Budd y Cyhoedd mewn Achosion sy'n Effeithio ar y Cyfryngau:

http://www.cps.gov.uk/legal/d_to_g/guidance_for_prosecutors_on_assessing_the_public_interest_in_cases_affecting_the_media_/s

Yr Alban, Polisi ac Arweiniad Erlyn yr Arglwydd Adfocad:

<http://www.crownoffice.gov.uk/publications/prosecution-policy-and-guidance>

Gogledd Iwerddon, Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus:

<http://www.ppsni.gov.uk/Code-for-Prosecutors-5017.html> Transparency Internationals - Corruption

Mynegai Canfyddiadau / Perceptions Index

<http://www.transparency.org/research/cpi/overview>

Risg Busnes Tramor Masnach a Buddsoddi y DU

<http://www.ukti.gov.uk/export/howwehelp/overseasbusinessrisk/countries.html>